# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD GWENER, 30 MEHEFIN 2017 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| J P Curtice | V M Evans | S J Gallagher |
| P Lloyd | C L Philpott | B J Rowlands |
| L G Thomas | L V Walton | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Yvonne Lewis | Uwch-swyddog Trwyddedu |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Catherine Swain | Rheolwr yr Uned Drafnidiaeth Integredig |
| Lyndsay Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: C Anderson, P Downing ac H M Morris

**Sylwer:**
Bu'r Cynghorydd BJ Rowlands yn bresennol fel arsyllydd ac ni bleidleisiodd ar unrhyw un o'r materion isod.

16 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd V M Evans – Personol – Cofnod 21 – Cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat – DM – Rwyf yn adnabod yr ymgeisydd a gadawais cyn ystyried yr eitem honno.

17 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

18 **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976- GYRRWR BATHODYN DEUOL CYFYNGEDIG - SPM.**

Rhoddodd y Prif Swyddog Trwyddedu fanylion cefndirol mewn perthynas ag SPM.

Esboniodd SPM amgylchiadau'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO** cais SPM i adnewyddu ei drwydded gyrrwr bathodyn deuol cyfyngedig a chyflwyno SPM â llythyr cryf o rybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

19 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR PREIFAT - - AJM.**

Rhoddodd y Prif Swyddog Trwyddedu fanylion cefndirol mewn perthynas ag AJM.

Esboniodd AJM amgylchiadau'r rhybudd ac atebodd gwestiynau'r aelodau.
Siaradodd tad AJM o blaid y cais.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO** cais AJM am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat o dan Adrannau 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chyflwyno llythyr o rybudd cryf i AJM ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

20 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR PREIFAT - AS.**

Rhoddodd y Prif Swyddog Trwyddedu fanylion cefndirol mewn perthynas ag AS.

Esboniodd AS amgylchiadau'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO** cais AS am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat o dan Adrannau 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chyflwyno llythyr o rybudd cryf i AS ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

## 21 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR PREIFAT - - DM.

Rhoddodd y Prif Swyddog Trwyddedu fanylion cefndirol mewn perthynas â DM.

Rhoddwyd diweddariad gan Reolwr yr Uned Drafnidiaeth Integredig ar benderfyniad gwreiddiol i gymeradwyo DM fel cynorthwy-ydd teithwyr ar gludiant ysgol. Tynnwyd y gymeradwyaeth hon yng ngolau gwybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd gan Heddlu De Cymru.

Esboniodd DM amgylchiadau'r gollfarn ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD GWRTHOD** cais DM am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat o dan Adrannau 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Rheswm dros y Penderfyniad
Nid oedd aelodau'n fodlon bod DM yn berson addas a phriodol a'i fod wedi bod yn gweithredu'n groes i'w gymeriad o ran ei euogfarn am ladrad ac na fyddai'n aildroseddu.
Diogelwch teithwyr oedd bwysicaf oll ac roedd gan yr aelodau bryderon mawr ynghylch cyffes DM ei fod wedi camarwain yr Heddlu drwy roi fersiwn anghywir iddynt a arweiniodd yn y pen draw at ei euogfarn am ladrad. Dywedodd DM fod ei fersiwn i CS yn wir. Cyfaddefodd DM ei fod wedi cymryd camau i sicrhau yr aeth yr arian at ei wraig yn hytrach nag i aelodau eraill o'i theulu. Awgrymodd DM fod ei fam-yng-nghyfraith wedi cytuno y gallai DM ddefnyddio' i harian oherwydd roedd hi am i'r arian fynd i'w merch. Mewn gwirionedd, trydedd fersiwn oedd hon. Roedd gan yr aelodau bryderon arbennig ynghylch adroddiad yr Heddlu a oedd yn nodi y cyflwynwyd hysbysiad ar ei fam-yng-nghyfraith oherwydd nid oedd yn gallu talu ei ffïoedd gofal, gan achosi gofid iddi, ac nid oedd ganddi unrhyw ddealltwriaeth y defnyddiwyd ei harian gan DM.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.08 am

**CADEIRYDD**